**Eitem ar yr agenda: 4(ii)**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

Dyma gofnodion y Cyfarfod Arbennig o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 27ain Hydref 2003 yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Ll Davies (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| | |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D M Morris | Cyngor Sir Ddinbych |
| A R Cattermoul | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R Hill | Cyngor Sir y Fflint |
| R P MacFarlane | Cyngor Sir y Fflint |
| D G Parry | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| D B Evans | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| F A Nichols | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G S Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H T Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); P S Coles (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), S Morris (Swyddog Prosiectau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau.

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| J R Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau.

## 3) "Our Fire and Rescue Service" – Papur Gwyn y Llywodraeth ar y Gwasanaeth Tân

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr eitem fusnes hon, a ohiriwyd ers y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 29ain Medi 2003, a dywedodd wrth yr Awdurdod mai diben yr adroddiad oedd rhestru'r bwriadau gynhwyswyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth, a manylu ar ei oblygiadau i Ogledd Cymru. Roedd hefyd yn ceisio penderfyniad os y dymunai'r Aelodau lobïo Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw un o'r materion yn y Papur Gwyn. I ateb cwestiwn ynghylch a oedd symudiad i gyfeiriad creu un Awdurdod Tân i Gymru, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad wedi datgan sawl tro nad oedd unrhyw gynlluniau o'r fath yn bodoli. Hyd yn hyn, roedd pob trafodaeth rhwng swyddogion o'r Gwasanaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gweision sifil o'r Cynulliad wedi eu seilio ar fodolaeth tri gwasanaeth tân yng Nghymru.

Dywedodd y Clerc fod y Papur Gwyn yn cynnwys awgrym, o leiaf o safbwynt byrddau rheoli gwasanaethau tân ac achub rhanbarthol yn Lloegr, efallai y byddai rhai o'r aelodau fyddai'n gwasanaethu ar y byrddau yma'n cael eu henwebu'n uniongyrchol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na bod yn aelodau etholedig a enwebwyd gan eu hawdurdodau cyfansoddol eu hunain. Nid oedd yn glir eto a fyddai bwrdd rheoli tebyg yn cael ei sefydlu yng Nghymru. Awgrymodd y Clerc y byddai'r Awdurdod efallai yn dymuno lobïo'r awdurdodau perthnasol am hyn, a phwysleisio eu gwrthwynebiad i unrhyw drefniant tebyg gael ei ymestyn i awdurdodau tân.

***Penderfynwyd: -***

*i.* ***nodi bod y Papur Gwyn wedi ei gyhoeddi, a'r hynt hyd yn hyn ar ddatganoli cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a***

ii. ***Iobïo Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gyda golwg ar gael sicrhad bydd yr holl aelodau sydd yn gwasanaethu ar awdurdodau tân yng Nghymru yn aelodau etholedig wedi eu henwebu gan eu hawdurdodau cyfansoddol eu hunain, ac na fydd unrhyw aelodau yn cael eu henwebu gan yr Ysgrifennydd Gwladol na'r Cynulliad i wasanaethu ar unrhyw un o'r awdurdodau tân yng Nghymru***

**4) Cynllun Integredig Rheoli Risg drafft**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r Aelodau gyda Chynllun Integredig Rheoli Risg drafft yr Awdurdod, i geisio cael eu cymeradwyaeth i gyflwyno'r Cynllun ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo'r newid enw. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Panel Gweithredol, yn eistedd fel Gweithgor, wedi cyfarfod un ar ddeg o weithiau dros yr ychydig fisoedd diwethaf i lunio'r Cynllun Integredig Rheoli Risg, a gyflwynwyd iddynt. Dywedodd y Prif Swyddog Tân ei fod yn ddiolchgar i'r Wasg, yn enwedig y "Daily Post" am y sylw teg roeddynt wedi ei roi i'r Cynllun yn rhifyn y diwrnod hwnnw o'r papur. Lleisiodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân eu gwerthfawrogiad i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) Paul Claydon, y swyddog arweiniol ar broses y Cynllun, am ei holl waith caled a wnaeth ar y Cynllun. Estynnwyd llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ms Shân Morris, y Swyddog Prosiectau, a fu'n chwarae rhan bwysig wrth lunio'r ddogfen, ac a fyddai cyn bo hir yn dechrau ar gyfnod o secondiad gyda'r Comisiwn Archwilio yn treialu fframwaith Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr (CPA) newydd ar gyfer Brigadau Tân.

Yna, rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon gyflwyniad i'r Aelodau ar y Cynllun drafft, a'r drefn a ddilynwyd i lunio Cynllun Risg yr Awdurdod. Esboniodd y byddai'r pwyslais yn newid dan y Cynllun Risg; byddai'r gwasanaeth yn symud o fod yn "wasanaeth ymyrryd" i fod yn fwy o "wasanaeth atal". Byddai'r drefn ei hun yn esblygu drwy'r amser, gan y byddai rhaid i'r Awdurdod lunio cynllun gweithredu yn flynyddol. Roedd y Gweithgor o'r farn fod angen i'r ddogfen fod yn un eglur, hawdd i'r cyhoedd ei deall ac mewn diwyg a fyddai'n annog y darllenydd cyffredin i'w chodi a'i darllen.

Yna, aeth yn ei flaen i roi dadansoddiad i'r Aelodau fesul tudalen ar y ddogfen, a'i chynnwys, gan ateb y cwestiynau a godwyd. I ateb y cwestiynau amrywiol dywedodd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod diogelwch y criwiau tân wedi bod yn hollbwysig wrth lunio'r bwriadau gynhwyswyd yn y Cynllun; roedd y ffigurau yn y ddogfen wedi eu seilio ar ffeithiau a gasglwyd trwy'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), sef system a brofodd i fod yn amhrisiadwy trwy gydol trefn y Cynllun Risg; byddai datblygu perthynas gweithio agosach gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r Cynllun Risg; a byddai system fynediad aml-haenog yn agor cyfleoedd i ragor o bobl ymuno â'r Gwasanaeth. Byddai pa mor bosib fyddai ystafell reoli ar y cyd i'r gwasanaethau brys yn un o'r materion i edrych arnynt yn y dyfodol agos. Hefyd, cadarnhawyd bod yr isadeiledd gyfathrebu i'r holl wasanaethau brys yn

rhywbeth yr edrychid arno yn genedlaethol; byddai'r llywodraeth ganolog yn ariannu'r system radio newydd arfaethedig, sydd i fod yn weithredol erbyn 2008. O safbwynt nifer y marwolaethau oherwydd tân yng Ngogledd Cymru dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon ei bod yn drist adrodd fod nifer y marwolaethau hyd yn hyn eleni yn dal ar gyfartaledd yn un y mis. Sicrhawyd yr aelodau y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog ac y byddai'r clawr blaen yn newid ychydig.

Fel rhan o'r drefn ymgynghori, a ddeuai i ben ar 31ain Ionawr 2004, byddai copïau'n mynd i bob llyfrgell a swyddfeydd cynghorau yng Ngogledd Cymru; hefyd byddai copïau'n mynd i Gymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Cymru i'w dosbarthu i'w haelodau. Hefyd, roedd Cadeirydd yr Awdurdod, yr Is-Gadeirydd a thîm o Brif Swyddogion wedi trefnu cyfarfodydd gydag aelodau a swyddogion y chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru gyda golwg ar drafod y Cynllun a'i fwriadau, ei oblygiadau a chasglu eu safbwyntiau arno.

Dan drefn foderneiddio'r Gwasanaeth Tân byddai gwaith achub yn dod yn ddyletswydd statudol; felly argymhellwyd bod yr Awdurdod yn cefnogi newid yr enw i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd y ddau awdurdod tân arall yng Nghymru eisoes wedi cymryd y penderfyniad yma ac wedi newid eu henwau. Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion a'r cyd-aelodau a fu'n rhan o'r drefn am eu gwaith dygn a:

***Penderfynwyd:* -**

- ***i.*** ***nodi cynnwys yr adroddiad;***
- ***ii.*** ***cymeradwyo'r Cynllun Integredig Rheoli Risg drafft***
- ***iii.*** ***awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i gyhoeddi'r adroddiad ac ymgynghori ar ei gynigion; a***
- ***iv.*** ***cymeradwyo newid yr enw i Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru***

**5) Materion Brys**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau.

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 2:55 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 15 Rhagfyr 2003